GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Bron Brawf Cymru 2023-24

Fersiwn 1

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Manylion cyhoeddi

Teitl: Adroddiad Ystadegol Blynyddol Bron Brawf Cymru 2023-24
Dyddiad: Mawrth 2026
ISBN: 978-1-83766-818-2

## Manylion cyswllt

Yr Adran Wybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: screening.information@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg heb oedi. We will respond to correspondence in Welsh without delay.

## Datganiad Sicrwydd Ansawdd

Mae cofnodion sgrinio data yn newid yn gyson. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (wedi'u harchifo). Gallai hyn ymwneud â phryd y nodwyd bod angen sgrinio person; wedi cael canlyniadau sgrinio y mae angen eu cofnodi neu wedi newid statws ac nad oes angen ei sgrinio mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o wahanol ffynonellau gyda lefelau amrywiol o gywirdeb a chyflawnrwydd. Mae'r Is-adran Sgrinio yn gwirio data am gywirdeb trwy gymharu setiau data - er enghraifft data practisiau Meddygon Teulu - ac mae'n cywiro'r data codio lle bo modd. Dylid nodi bod oedi weithiau wrth gasglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru ar unwaith gyda'i feddyg teulu os bydd yn symud i gyfeiriad arall. Bydd yr oedi hwn felly yn effeithio ar gyflawnrwydd y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darllenydd fod yn ymwybodol bod data'n cael ei ddiweddaru'n gyson ac efallai y bydd mân newidiadau yn y niferoedd a nodir yn y ddogfen hon flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd adnewyddu data. Byddwn, o bryd i'w gilydd, yn atal rhifau sy'n is na phump pan y gallai'r data fod yn sensitif.

## Gwybodaeth hawlfraint

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd sydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) (www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dylunwaith a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Cynnwys....4
Tablau....5
Ffigurau....5
Negeseuon allweddol....7
Cyflwyniad....8
Cefndir....8
Cyflawni'r rhaglen....9
Llwybr Sgrinio....10
Prif Ystadegau....11
Data....12
Cwmpas....12
Gweithgarwch Sgrinio....15
Nifer sy'n cael prawf sgrinio....17
Atgyfeiriad i gael asesiad....20
Triniaethau biopsi ar gyfer asesu....23
Cyfradd Canfod Canser....26
Math o ganser a'i faint....29
Diffiniadau....33
Y Tîm Cynhyrchu....35
Manylion cyswllt y rhaglen....36

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Tablau


Tabl 1**:** Atgyfeiriad i gael asesiad, pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24 ........ 22
Tabl 2: Atgyfeiriad i gael asesiad a thriniaethau biopsi, pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24 ........ 25
Tabl 3: Cyfradd canfod canser (fesul 1,000 a gafodd brawf sgrinio), pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24 ........ 27
Tabl 4: Canserau ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24 ........ 30
Tabl 5: Maint y canserau ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24 ........ 31
Tabl 6: Canserau anymledol/micro-ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24 ........ 32


# Ffigurau


Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio'r fron ........ 10
Ffigur 2: Canran cwmpas sgrinio'r fron, menywod 53-70 oed, yn ôl bwrdd iechyd preswyl, 2022-2024 ........ 14


Ffigur 2: Canran cwmpas sgrinio'r fron, menywod 53-70 oed, yn ôl bwrdd iechyd preswyl, 2022-2024 ........ 14


Ffigur 3: Cyfanswm gweithgarwch sgrinio dros 10 mlynedd, menywod 49 oed a hŷn, 2014-15 i 2023-24 ........ 16
Ffigur 4: Canran dros 10 mlynedd y bobl sy'n manteisio ar y gwahoddiad i gael prawf sgrinio'r fron yn rheolaidd, menywod 50-70 oed, 2014-15 i 2023-24 ........ 18
Ffigur 5: Canran y bobl a gafodd brawf sgrinio yn ôl uned sgrinio, menywod 50-70 oed, 2021-22 i 2023-24 ........ 19
Ffigur 6: Canran y bobl a gafodd brawf sgrinio yn ôl y math o wahoddiad, menywod 50-70 oed, 2021-22 i 2023-24 ........ 20
Ffigur 7: Cyfradd canfod canser fesul 1,000 a gafodd brawf sgrinio, yn ôl y math o wahoddiad, fesul uned sgrinio, 2021-22 i 2023-24 ........ 28
Ffigur 8: Y gyfradd canfod canser fesul 1,000 a gafodd brawf sgrinio, 2014-15 i 2023-24 yn ôl grŵp oedranFfigur 7: Cyfradd canfod canser fesul 1,000 a gafodd brawf sgrinio, yn ôl y math o wahoddiad, fesul uned sgrinio, 2021-22 i 2023-24 ........ 28

Ffigur 8: Y gyfradd canfod canser fesul 1,000 a gafodd brawf sgrinio, 2014-15 i 2023-24 yn ôl grŵp oedran........................................................................................................................................28

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Negeseuon allweddol

- Mae sgrinio'r fron yn lleihau'r risg o farw o ganser y fron.
- Mae menywod rhwng 50 a 70 oed yn cael eu gwahodd i gael pelydr-X o'r fron bob tair blynedd. Ni chaiff menywod dros 70 oed eu gwahodd yn rheolaidd gan nad oes tystiolaeth bod gostyngiad mewn marwolaethau yn sgil sgrinio menywod yn yr ystod oedran hon.
- Gall sgrinio ddarganfod canserau pan fyddan nhw'n rhy fach i'w gweld neu eu teimlo. Mae darganfod canser yn gynnar a'i drin yn rhoi'r cyfle gorau i unigolyn oroesi.
- Mae sgrinio'r fron yn brawf am ddim gan y GIG a gynhelir mewn canolfannau sgrinio ac unedau symudol hygyrch ledled Cymru.
- Dylai pob menyw sy'n sylwi ar newid yn ei bronnau gysylltu â'i meddyg teulu ar unwaith.
- Ni fydd sgrinio yn darganfod pob canser, ac ni ellir gwella rhai canserau.
- Dewis unigolyn yw cymryd rhan mewn sgrinio'r fron. Mae taflenni gwybodaeth ar gael a all helpu wrth wneud penderfyniad.

# Cyflwyniad

## Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am y gwaith a wnaed gan y Rhaglen Sgrinio'r Fron yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Mae'n cyflwyno data allweddol, cyflawniadau, a meysydd i'w gwella.

Prif nod sgrinio'r fron yw lleihau cyfraddau marwolaethau drwy adnabod canser y fron yn ei gamau cynnar, yn aml cyn i symptomau ymddangos. Mae menywod rhwng 50 a 70 oed sy'n byw yng Nghymru ac wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu yn cael eu gwahodd i gael mamogram (pelydr-X o'r bronnau) bob tair blynedd.

### Cymhwysedd

Cynigir sgrinio i unigolion cymwys yn seiliedig ar ganllawiau sefydledig, gan sicrhau mynediad at ofal ac adnoddau o ansawdd uchel.

Mae menywod rhwng 50 a 70 oed yn cael eu gwahodd i gael prawf sgrinio'r fron bob tair blynedd. Mae'r broses wahodd yn dibynnu ar y practis meddyg teulu y mae'r unigolyn wedi cofrestru ynddo. Bydd Bron Brawf Cymru yn gwahodd pob menyw i'w phrawf sgrinio'r fron cyntaf cyn ei phen-blwydd yn 53 oed. Weithiau, mae hyn yn golygu y bydd rhai menywod yn cael eu gwahodd ychydig amser cyn iddynt gyrraedd 50 oed.

### Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen a chopïau o adroddiadau ystadegol blaenorol ar gael ar wefan Bron Brawf Cymru: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/bron-brawf-cymru/

### Lleoliadau'r profion sgrinio

Mae Bron Brawf Cymru wedi'i rannu'n adrannau daearyddol (Gogledd, De-ddwyrain a De-orllewin Cymru) gyda chanolfannau yng Nghaerdydd, Abertawe, Llandudno a Wrecsam. Mae un ar ddeg o unedau symudol yn gweithio ledled Cymru i ddarparu profion sgrinio lleol i fenywod sy'n byw gryn bellter o ganolfan, ac maent yn ymweld â dros 100 o safleoedd ym mhob cylch sgrinio tair blynedd.

### Crynodeb o'r gweithgarwch yn ystod y flwyddyn yr adroddir amdani

Dros y cyfnod 2023/24, cynyddodd y rhaglen ei gweithgarwch cyffredinol, gan wahodd mwy o gyfranogwyr er mwyn adfer hyd y cylch sgrinio a gafodd ei hymestyn yn dilyn y pandemig. Effeithiodd

y pandemig ar sgrinio'r fron gan achosi gostyngiad yn y capasiti cyffredinol ac amseroedd aros hirach am wahoddiadau sgrinio. Yn 2023/24, gwahoddwyd 174,364 o bobl - dyma'r nifer fwyaf a wahoddwyd mewn blwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf.

Dychwelodd y cwmpas i’r lefelau a welwyd cyn y pandemig ac mae bellach yn bodloni'r safon; mae hyn oherwydd adfer hyd y cylch yn sgil effaith y pandemig Covid-19. Mae cyflawni'r safon o ran y nifer sy’n cael prawf wedi parhau i fod yn heriol dros y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae’r cyfraddau canfod canser wedi cynyddu eto, ac roedd nifer sylweddol o'r canserau ymledol a ganfuwyd yn llai na 15mm. Mae hyn yn fach, sy’n golygu eu bod yn annhebygol o fod wedi'u canfod trwy deimlo â llaw.

## Datblygiadau ers y flwyddyn yr adroddwyd amdani

Yn 2023/24, parhaodd y rhaglen i ganolbwyntio ar wella amseroldeb cyffredinol dangosyddion allweddol y rhaglen, gan roi pwyslais penodol ar amseroedd prosesu canlyniadau a chyflawni arosiadau byrrach i glinigau asesu, yn ogystal ag adfer y safon 36 mis o ran hyd y cylch. Oherwydd nifer gynyddol y gwahoddiadau, gwnaeth y rhaglen adfer ôl-groniad o gyfranogwyr yr oedd eu profion wedi cael eu gohirio am dros 36 mis, a hynny’n unol â'r amserlenni disgwyliedig yn 2024.

Dros y cyfnod, bu Bron Brawf Cymru’n gweithio gyda Byrddau Iechyd yng Nghymru i ddatblygu manyleb dechnegol a chynllun gweithredu ar gyfer System Archifo Lluniau a Chyfathrebu (PACS) newydd ar gyfer Cymru gyfan. Mae PACS yn blatfform digidol a ddefnyddir mewn ysbytai ac adrannau delweddu i storio, adalw, gweld a rhannu delweddau meddygol fel pelydrau-X, sganiau CT, sganiau MRI a sganiau uwchsain. Mae hyn yn galluogi clinigwyr i gael mynediad diogel at ddelweddau o wahanol leoliadau, sy’n cefnogi diagnosio, adrodd a chydweithio’n gyflymach. Mae Bron Brawf Cymru yn parhau â'i waith gyda Byrddau Iechyd yng Nghymru i ddatblygu llwybr sy'n cydymffurfio â NICE ar gyfer menywod sydd mewn perygl uchel iawn o gael canser y fron, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad at sganiau MRI a'r amlder priodol o ran sgrinio’r fron ledled Cymru.

# Cyflawni’r rhaglen

Mae Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd y rhaglen sgrinio’r fron yng Nghymru ac mae ganddi Gyfarwyddwr Sgrinio ac Ymgynghorydd Arweiniol Iechyd y Cyhoedd. Mae Bron Brawf Cymru yn cyflogi Pennaeth Rhaglen, Llawfeddyg Sicrhau Ansawdd (SA), Radiolegydd SA, Patholegydd SA a Rheolwr Rhaglen Llwybr Sgrinio Cymru Gyfan sy'n arwain tîm gweinyddol llwybrau sgrinio, ac mae cefnogaeth ysgrifenyddol feddygol. Mae tîm clinigol amlddisgyblaeth arbenigol mawr sy’n cynnwys cymorth clinig, nyrsys gofal y fron, nyrsys clinig, radiograffwyr, radiograffwyr ymgynghorol, clinigwyr y fron, llawfeddygon y fron a radiolegwyr ymgynghorol, sy'n darparu'r gwasanaeth sgrinio'r fron.


# Llwybr Sgrinio

Cynigir prawf sgrinio i fenywod 50-70 oed sy'n byw yng Nghymru ac sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu naill ai mewn uned symudol yn eu hardal neu yn un o'r canolfannau yn Llandudno, Wrecsam, Abertawe neu Gaerdydd.

Bydd menywod rhwng 50 a 70 oed sydd ag apwyntiad dilynol mewn clinig y fron mewn ysbyty yn dal i gael gwahoddiad gan Bron Brawf Cymru

Ni chaiff menywod dros 70 oed eu gwahodd yn rheolaidd gan nad oes tystiolaeth bod gostyngiad mewn marwolaethau yn sgil sgrinio menywod yn yr ystod oedran hon.

Bydd menywod sy'n dod i apwyntiad sgrinio yn cael mamogram (pelydr-X o'u bronnau). Os gwelir unrhyw annormaleddau ar y mamogram, gwahoddir y fenyw i glinig asesu i gael profion ychwanegol.




Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio'r fron

# Prif Ystadegau

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gweithgarwch yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.

- Ar 31 Mawrth 2024, roedd cwmpas menywod 53-70 oed yn 70.0%.
- Cafodd 133,339 o fenywod 49 oed a hŷn brawf sgrinio.
- Gwahoddwyd 174,364 o fenywod rhwng 50 a 70 oed. Canran y bobl a gafodd brawf sgrinio yn y grŵp hwn oedd 68.5%.
- Atgyfeiriwyd 3.6% o'r rhai a sgriniwyd am asesiad pellach.
- Canfuwyd 1,303 o ganserau ymhlith menywod a gafodd brawf sgrinio a oedd yn 49 oed a hŷn. Mae hyn yn cynrychioli 9.8 achos fesul 1,000 o fenywod a sgriniwyd.
- O'r canserau a ganfuwyd, roedd 83.0% (1081) yn friwiau ymledol.
- Cafodd 40.0% (432) o'r canserau ymledol a ganfuwyd eu categoreiddio yn rhai bach (llai na 15mm).

# Data

## Cwmpas

### Diffiniad a safon

Diffinnir cwmpas fel canran y menywod sy'n byw yn yr ardal, sy'n gymwys i gael prawf sgrinio'r fron ar adeg benodol, ac sydd wedi cael eu sgrinio o fewn y tair blynedd flaenorol. Mae menywod anghymwys yn cynnwys y rhai sydd wedi cael mastectomi dwyochrog.

Gall y nifer sy'n cael ei sgrinio yn ogystal â hyd y cylch sgrinio (gwahoddiadau a gyhoeddwyd o fewn 36 mis i'r sgrinio blaenorol) effeithio ar y cwmpas. Er mwyn rhoi amser i bob menyw dderbyn ei gwahoddiad cyntaf, cyflwynir y cwmpas ar gyfer yr ystod oedran 53-70.

Safon: >=70%

### Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Ar 31 Mawrth 2024, roedd cwmpas menywod 53-70 oed yn 70.0%.

### Y duedd tair blynedd

Roedd y cwmpas yn 70.0% ar 31 Mawrth 2024, 56.1% ar 31 Mawrth 2023, a 56.5% ar 31 Mawrth 2022.

### Trosolwg daearyddol

Mae cwmpas sgrinio'r fron, yn ôl bwrdd iechyd preswyl, yn amrywio o 67.8% i 72.4% (Ffigur 2).

### Sylwadau

Yn ystod 2023-24, gostyngodd y nifer a gafodd brawf ychydig. Fodd bynnag, mae'r cwmpas wedi cynyddu (70.0%) o 2023 (56.1%), ac mae bellach yn bodloni'r safon.

Arsylwadau Allweddol:


1) Cynnydd Cyffredinol yn y Cwmpas:

Mae cwmpas sgrinio'r fron wedi cynyddu, ar lefel genedlaethol, o 56.1% ar 31/03/23 i 70.0% ar 31/03/24. Gellir gweld yr un patrwm hwn ym mhob bwrdd iechyd preswyl. Mae hyn oherwydd bod hyd y cylch wedi'i adfer yn dilyn effaith y pandemig Covid-19. Ar hyn o bryd, ym mhob bwrdd iechyd preswyl ond dau (sef Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Phrifysgol Cwm Taf), mae'r cwmpas uwchlaw'r safon darged.

2) Amrywiadau Ymhlith y Byrddau Iechyd Preswyl:

Mae amrywiaeth o ran cwmpas ar draws byrddau iechyd preswyl. Yn 2024, Caerdydd a'r Fro oedd â'r cwmpas isaf (67.8%) a Phowys oedd â'r cwmpas uchaf (72.4%). Fodd bynnag, mae amrywiannau ar draws y cyfnod tair blynedd.

## Ffigurau a thablau




Ffigur 3: Canran cwmpas sgrinio'r fron, menywod 53-70 oed, yn ôl bwrdd iechyd preswyl, 2022-2024

Darperir cwmpas ar gyfer tri dyddiad penodol: 31/03/22, 31/03/23, a 31/03/24 ac mae'r llinell doredig yn cynrychioli targed y rhaglen, sef 70%.

# Gweithgarwch Sgrinio

## Diffiniad a safon

Mae menywod yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i gael profion sgrinio'r fron os ydynt rhwng 50 a 70 oed (neu'n 49 oed os ydynt yn troi'n 50 yn y flwyddyn y caiff eu practis ei sgrinio).

Mae'r niferoedd ar gyfer gweithgarwch sgrinio hefyd yn cynnwys menywod dros 70 oed sydd wedi cysylltu â'r gwasanaeth i ofyn am brawf sgrinio.

Safon: Nid oes safon yn bodoli.

## Canlyniad ar gyfer 2023-24

Cafodd 133,339 o fenywod 49 oed a hŷn brawf sgrinio (Ffigur 3).

## Y duedd tair blynedd


Y gweithgarwch sgrinio oedd  133,339 yn 2023-24, 122,190 yn 2022-23, a 108,191 yn 2021-22.

## Sylwadau

Er bod gweithgarwch sgrinio'r rhaglen wedi dychwelyd i'w lefel cyn y pandemig yn 2022-23, mae gweithgarwch yn 2023-24 yn uwch na'r lefelau arferol. 133,339 yw'r nifer fwyaf a sgriniwyd mewn blwyddyn yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Er y gall menywod dros 70 oed gysylltu â'r rhaglen i ofyn am brawf sgrinio, mae'n bwysig nodi nad oes tystiolaeth gadarn bod sgrinio rheolaidd yn achub bywydau yn y grŵp oedran hŷn hwn. Dylai pob menyw sy'n sylwi ar newid yn ei bronnau gysylltu â'i meddyg teulu ar unwaith.

## Ffigurau a thablau




Ffigur 4: Cyfanswm gweithgarwch sgrinio dros 10 mlynedd, menywod 49 oed a hŷn, 2014-15 i 2023-24

# Nifer sy'n cael prawf sgrinio

## Diffiniad a safon

Canran y menywod sy'n cael gwahoddiad rheolaidd (50-70 oed) ac sy'n mynychu profion sgrinio o fewn chwe mis o gael gwahoddiad.

Safon: >=70%

## Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Gwahoddwyd 174,364 o fenywod rhwng 50 a 70 oed i gael prawf sgrinio, a manteisiodd 68.5% ar y gwahoddiad (Ffigur 4).

## Y duedd tair blynedd

Canran y bobl a gafodd brawf sgrinio oedd 68.5% yn 2023-24, 69.5% yn 2022-23, a 70.0% yn 2021-22.

## Trosolwg daearyddol

O ran amrywiad rhanbarthol, mae'r ganran sy'n cael prawf eleni ar ei huchaf yn Ne-ddwyrain Cymru (69.4%), yna De-orllewin Cymru (68.3%) a Gogledd Cymru (66.8%) (Ffigur 5). Ceir amrywiad daearyddol yn nifer y bobl sy'n cael prawf sgrinio ledled Cymru ar lefel Byrddau Iechyd, a hefyd graddiant cymdeithasol o ran y nifer sy'n cael prawf sgrinio, lle gwelir bod cysylltiad rhwng amddifadedd cynyddol a llai o bobl yn cael prawf sgrinio.

## Sylwadau

Gall y nifer sy'n cael ei sgrinio amrywio yn ôl y math o wahoddiad. Gellir rhannu'r gwahoddiadau rheolaidd i'r grwpiau canlynol:


- Gwahoddiad cyntaf
- Gwahoddiad i'r rhai nad ydynt wedi bod yn dod i gael prawf sgrinio ynghynt
- Gwahoddiad i'r rhai sy'n dod i gael prawf sgrinio'n rheolaidd
- Gwahoddiad i'r rhai sydd wedi esgeuluso dod i gael prawf sgrinio

Fel y mae Ffigur 6 yn ei ddangos, mae nifer y bobl sy'n dod i gael prawf sgrinio ar ei huchaf ymhlith y rhai sy'n dod yn rheolaidd (86.3%) ac ar ei hisaf ymhlith y rhai nad ydynt wedi bod yn dod i gael prawf


sgrinio yn flaenorol (19.9%). Mae Bron Brawf Cymru yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig gyda'i wahoddiadau i gynorthwyo menywod i wneud dewis ar sail gwybodaeth wrth benderfynu a ddylent fynd am brawf sgrinio'r fron ai peidio.

Sefydlwyd gweithgorau o fewn yr Is-adran Sgrinio a'r Rhaglen Sgrinio'r Fron i asesu a rhoi ymyriadau ar waith i gefnogi'r nifer sy'n cael ei sgrinio. Rhoddir mwy o bwyslais ar ddatblygu ymyriadau sy'n lleihau anghydraddoldebau ac yn gwella iechyd ei phoblogaeth darged.  Mae gwaith hefyd ar y gweill i edrych ar sut y gall negeseuon testun a'r cyfryngau cymdeithasol digidol annog pobl i gael prawf sgrinio a lleihau anghydraddoldebau o ran nifer y bobl sy'n cael prawf sgrinio'r fron. Bu gwelliant yn nifer y bobl sy'n cael eu prawf sgrinio cyntaf yn ystod y cyfnod hwn, sy'n galonogol am fod cyfranogwyr sydd wedi derbyn eu cynnig yn fwy tebygol o dderbyn eu cynigion yn y dyfodol.

## Ffigurau a thablau





Ffigur 5: Canran dros 10 mlynedd y bobl sy'n manteisio ar y gwahoddiad i gael prawf sgrinio'r fron yn rheolaidd, menywod 50-70 oed, 2014-15 i 2023-24




Ffigur 6: Canran y bobl a gafodd brawf sgrinio yn ôl uned sgrinio, menywod 50-70 oed, 2021-22 i 2023-24

Mae De-ddwyrain Cymru, sef 69.4%, ychydig islaw'r safon (>=70%), tra bod De-orllewin Cymru 1.7% yn is, ac mae Gogledd Cymru 3.2% yn is.




Ffigur 7: Canran y bobl a gafodd brawf sgrinio yn ôl y math o wahoddiad, menywod 50-70 oed, 2021-22 i 2023-24

# Atgyfeiriad i gael asesiad

## Diffiniad a safon

Os gwelir annormaleddau ar y mamogram sgrinio sy'n awgrymu bod canser yno, bydd y fenyw yn cael ei hailalw i glinig asesu i gael profion ychwanegol. Disgwylir y bydd mwy o fenywod yn cael eu hailalw yn dilyn eu prawf sgrinio cyntaf (sgrinio cyffredin) gan nad oes delweddau blaenorol yn bodoli i lywio'r penderfyniad ar gyfer ailalw.

Mae'r cyfraddau atgyfeirio ar gyfer menywod sydd wedi cael eu sgrinio o'r blaen (sgrinio achos) yn debygol o fod yn is oherwydd byddant yn cyflwyno gyda chlefyd mwy diweddar a gall yr hanes sgrinio gynorthwyo'r darllenydd delweddau wrth ddehongli'r mamogram.

Safon: Mae safon y gyfradd atgyfeirio menywod a gafodd brawf sgrinio cyffredin yn llai na 9%. Mae safon y gyfradd atgyfeirio menywod a gafodd brawf sgrinio achos yn llai na 4%.

## Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Cafodd 3.6% o'r holl fenywod, o bob oedran, a gafodd brawf sgrinio, eu hatgyfeirio i gael asesiad. Ar gyfer menywod a gafodd y prawf sgrinio cyffredin, y gyfradd atgyfeirio oedd 5.0%, ac roedd yn 3.1% ar gyfer menywod a gafodd y prawf sgrinio achos (Tabl 1).

## Y duedd tair blynedd

3.6% yn gyfan gwbl (5.0% sgrinio cyffredin, 3.1% sgrinio achos) yn 2023-24, 4.0% yn gyfan gwbl (5.9% sgrinio cyffredin, 3.3% sgrinio achos) yn 2022-23, a 4.8% yn gyffredinol (7.0% sgrinio cyffredin, 4.0% sgrinio achos) yn 2021-22.

## Trosolwg daearyddol

Yn 2023-24, o gyfanswm y rhai a gafodd eu sgrinio yng Ngogledd Cymru, atgyfeiriwyd 4.2% i gael asesiad; yn Ne-ddwyrain Cymru, atgyfeiriwyd 3.5% i gael asesiad, ac yn Ne-orllewin Cymru y gyfradd oedd 3.3%.

Yng Ngogledd Cymru, atgyfeiriwyd 6.3% o fenywod a gafodd brawf sgrinio cyffredin, ac atgyfeiriwyd 3.3% o fenywod a gafodd brawf sgrinio achos. Yn Ne-ddwyrain Cymru, atgyfeiriwyd 4.8% o fenywod a gafodd brawf sgrinio cyffredin ac atgyfeiriwyd 3.0% o fenywod a gafodd brawf sgrinio achos. Yn olaf, yn Ne-orllewin Cymru y cyfraddau atgyfeirio oedd 4.2% ar gyfer y rhai a gafodd brawf sgrinio cyffredin a 2.9% ar gyfer y rhai a gafodd brawf sgrinio achos.

## Sylwadau

Dros dair blynedd, mae'r cyfraddau atgyfeirio wedi gostwng, gyda'r holl ffigurau yn 2023-24 islaw'r safonau a ddiffiniwyd.

Amrywiadau Rhanbarthol:

Gogledd Cymru sydd â'r gyfradd atgyfeirio uchaf yn sgil profion sgrinio cyffredin (6.3%), a'r gyfradd atgyfeirio uchaf yn sgil profion sgrinio achos (3.3%), ond mae'r rhain yn cyflawni'r safonau.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 1: Atgyfeiriad i gael asesiad, pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24

| | 2021-22 | | | 2022-23 | | | 2023-24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sgrinio | Atgyfeirio | % | Sgrinio | Atgyfeirio | % | Sgrinio | Atgyfeirio | % |
| Cyfanswm | 108,191 | 5141 | 4.8 | 122,190 | 4860 | 4.0 | 133,339 | 4816 | 3.6 |
| Sgrinio Cyffredin | 19,641 | 1379 | 7.0 | 21,303 | 1256 | 5.9 | 25,662 | 1289 | 5.0 |
| Sgrinio Achos | 76,460 | 3057 | 4.0 | 87,535 | 2917 | 3.3 | 97,857 | 2992 | 3.1 |
| | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf i gael prawf sgrinio rheolaidd | 16,402 | 1141 | 7.1 | 16,184 | 968 | 6.0 | 19,833 | 953 | 4.8 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai nad ydynt wedi bod o'r blaen i gael prawf sgrinio | 3599 | 238 | 6.6 | 5119 | 288 | 5.6 | 5829 | 336 | 5.8 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf o fewn 5 mlynedd | 72,341 | 2823 | 3.9 | 82,875 | 2705 | 3.3 | 91,957 | 2694 | 2.9 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf dros 5 mlynedd ynghynt | 4119 | 234 | 5.7 | 4660 | 212 | 4.5 | 5900 | 298 | 5.1 |
| Ailalw'n gynnar | 34 | 34 | 100 | 52 | 52 | 100 | 38 | 38 | 100 |
| Hunanatgyfeiriad/Atgyfeiriad gan y meddyg teulu | 12,056 | 671 | 5.6 | 13,300 | 635 | 4.8 | 9782 | 497 | 5.1 |

# Triniaethau biopsi ar gyfer asesu

## Diffiniad a safon

Fel rhan o'r broses asesu, cynhelir prawf mamogram ychwanegol ac archwiliad o'r fron. Os bydd pryder o hyd ar ôl i'r profion ychwanegol hyn ynghyd â sgan uwchsain gael eu gwneud, bydd yn ofynnol cynnal biopsi er mwyn gwneud diagnosis.

Cynhelir y rhan fwyaf o fiopsïau mewn clinig asesu a defnyddir techneg nodwydd lydan (wide bore needle) Mae nifer fach iawn o allsugnadau o'r fron yn cael eu gwneud â nodwydd fân bob blwyddyn ond mae hyn fel arfer yn ychwanegol at gael sampl o feinwe drwy nodwydd lydan neu fiopsi â chymorth sugnwr. Efallai y bydd angen gwneud toriad â chymorth sugnwr neu fiopsi llawfeddygol agored ar nifer bach arall o fenywod er mwyn cael diagnosis pendant.

Safon: Nid oes safon yn bodoli.

## Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

O'r 4,816 o fenywod a atgyfeiriwyd am asesiad, cafodd 48.8% (2351) fiopsi â nodwydd lydan a/neu fiopsi â chymorth sugnwr, ac roedd angen biopsi llawfeddygol agored ar 0.9% (41) (Tabl 2).

## Y duedd tair blynedd

Cafodd 48.8% fiopsi â nodwydd lydan/â chymorth sugnwr, ac roedd angen biopsi agored ar 0.9% yn 2023-24. Cafodd 45.7% fiopsi â nodwydd a 0.7% fiopsi agored yn 2022-23, cafodd 44.2% fiopsi â nodwydd ac 0.9% fiopsi agored yn 2021-22.

## Sylwadau

Mae **biopsi craidd** yn cynnwys defnyddio nodwydd sbring-lwythog i dynnu samplau silindrig bach o feinwe'r fron o dan arweiniad delweddu, fel arfer uwchsain, mamograffeg stereotactig neu MRI. Fe'i defnyddir yn gyffredin i wneud diagnosis o annormaleddau a welir ar ddelweddau neu rai a deimlir yn glinigol, ac mae'n darparu digon o feinwe ar gyfer dadansoddiad histolegol yn y modd lleiaf mewnwthiol posib.

**Mae biopsi o'r fron â chymorth sugnwr (VAB)** yn defnyddio chwiliedydd gwag a gaiff ei gysylltu â sugnwr i dynnu meinwe i'r ddyfais, lle mae torrwr cylchdroi yn tynnu sawl sampl mwy trwy un toriad trwy'r croen. Mae'n cynhyrchu mwy o feinwe na biopsi craidd safonol.

Mae toriad â chymorth sugnwr (VAE) yn adeiladu ar y dechneg VAB i dynnu mwy o feinwe, gan anelu weithiau at dorri briw bach fel màs anfalaen neu ficrogalcheiddiadau allan yn gyfan gwbl, a gall fod yn ddewis amgen yn lle llawdriniaeth.

Cynhelir y triniaethau â nodwydd yn bennaf mewn uned Bron Brawf Cymru, ac mae biopsi agored yn llawdriniaeth feddygol sy'n ei gwneud yn ofynnol mynd i'r ysbyty.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 2: Atgyfeiriad i gael asesiad a thriniaethau biopsi, pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24

| | 2021-22 | | | | | 2022-23 | | | | | 2023-24 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atgyfeirio | Nodwydd Bx | % | Bx Agored | % | Atgyfeirio | Nodwydd Bx | % | Bx Agored | % | Atgyfeirio | Nodwydd Bx | % | Bx Agored | % |
| Cyfanswm | 5141 | 2274 | 44.2 | 44 | 0.9 | 4860 | 2223 | 45.7 | 33 | 0.7 | 4816 | 2351 | 48.8 | 41 | 0.9 |
| Sgrinio Cyffredin | 1379 | 609 | 44.2 | 13 | 0.9 | 1256 | 564 | 44.9 | 8 | 0.6 | 1289 | 649 | 50.3 | 16 | 1.2 |
| Sgrinio Achos | 3057 | 1339 | 43.8 | 24 | 0.8 | 2917 | 1316 | 45.1 | 18 | 0.6 | 2992 | 1439 | 48.1 | 24 | 0.8 |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf i gael prawf sgrinio rheolaidd | 1141 | 494 | 43.3 | 12 | 1.1 | 968 | 441 | 45.6 | 6 | 0.6 | 953 | 469 | 49.2 | 10 | 1.0 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai nad ydynt wedi bod o'r blaen i gael prawf sgrinio | 238 | 115 | 48.3 | 1 | 0.4 | 288 | 123 | 42.7 | 2 | 0.7 | 336 | 180 | 53.6 | 6 | 1.8 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf o fewn 5 mlynedd | 2823 | 1215 | 43.0 | 21 | 0.7 | 2705 | 1188 | 43.9 | 16 | 0.6 | 2694 | 1292 | 48.0 | 23 | 0.9 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf dros 5 mlynedd ynghynt | 234 | 124 | 53.0 | 3 | 1.3 | 212 | 128 | 60.4 | 2 | 0.9 | 298 | 147 | 49.3 | 1 | 0.3 |
| Ailalw'n gynnar | 34 | 1 | 2.9 | 1 | 2.9 | 52 | 9 | 17.3 | 1 | 1.9 | 38 | 3 | 7.9 | 0 | 0.0 |
| Hunanatgyfeiriad/Atgyfeiriad gan y meddyg teulu | 671 | 325 | 48.4 | 6 | 0.9 | 635 | 334 | 52.6 | 6 | 0.9 | 497 | 260 | 52.3 | 1 | 0.2 |

# Cyfradd Canfod Canser

## Diffiniad a safon

Cyfradd y canserau a ganfuwyd ymhlith menywod sydd wedi cael eu sgrinio, 49 oed a hŷn. Darperir Cyfraddau Canfod Canser ar gyfer pob oedran ac yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad.

Safon: Mae ystod o safonau ar waith gan y rhaglen, yn dibynnu ar y math o ganser:

Canfod canser ymledol (cyffredin): 3.6 fesul 1000 (isafswm), 5.1 fesul 1000 (targed)
Canfod canser ymledol (achos): 4.1 fesul 1000 (isafswm), 5.7 fesul 1000 (targed)

Canfod canser ymledol bach (cyffredin): 2.0 fesul 1000 (isafswm), 2.8 fesul 1000 (targed)
Canfod canser ymledol bach (achos): 2.3 fesul 1000 (isafswm), 3.1 fesul 1000 (targed)

Canfod canser anymledol (cyffredin): 0.5 fesul 1000 (targed)
Canfod canser anymledol (achos): 0.6 fesul 1000 (targed)

## Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Canfuwyd cyfanswm o 1303 o ganserau ymhlith menywod 49 oed a hŷn a gafodd brawf sgrinio.  Mae hyn yn cynrychioli 9.8 o ganserau fesul 1,000 o fenywod a gafodd brawf sgrinio.  Roedd canfod canser ymhlith menywod a gafodd brawf sgrinio cyffredin yn 8.5 fesul 1,000 a sgriniwyd.  Ar gyfer menywod a gafodd brawf sgrinio achos, y gyfradd oedd 9.2 fesul 1,000 o fenywod a sgriniwyd (Tabl 3).

## Y duedd tair blynedd

1303 o ganserau (9.8 fesul 1,000 o'r holl fenywod a gafodd brawf sgrinio, 8.5 fesul 1,000 o fenywod a gafodd brawf sgrinio cyffredin, 9.2 fesul 1,000 o fenywod a gafodd brawf sgrinio achos) yn 2023-24; 1182 o ganserau (9.7 fesul 1,000 o'r holl fenywod a gafodd brawf sgrinio, 8.5 fesul 1,000 o fenywod a gafodd brawf sgrinio cyffredin, 9.0 fesul 1,000 o fenywod a gafodd brawf sgrinio achos) yn 2022-23, a 1121 o ganserau (10.4 fesul 1,000 o'r holl fenywod a gafodd brawf sgrinio, 9.4 fesul 1,000 o fenywod a gafodd brawf sgrinio cyffredin, 9.9 fesul 1,000 o fenywod a gafodd brawf sgrinio achos) yn 2021-22.

## Trosolwg daearyddol

Mae archwiliad o gyfraddau canfod canser ar lefel unedau sgrinio yn dangos gostyngiad cyffredinol yn Ne-ddwyrain Cymru o 2022-23, ond cynnydd yn y Gogledd a'r De-orllewin (Ffigur 7).


## Sylwadau

Mae digwyddedd canser y fron yn uwch yn gyffredinol ymhlith y grwpiau oedran hŷn.  Ar gyfer y menywod a wahoddir yn rheolaidd, yn 2023-24 y gyfradd canfod canser ar gyfer menywod 50-54 oed oedd 6.8 fesul 1,000 a gafodd brawf sgrinio, ac roedd yn codi i 12.4 fesul 1,000 yn y grŵp oedran 65-70 (Ffigur 8).


## Ffigurau a thablau

### Tabl 3: Cyfradd canfod canser (fesul 1,000 a gafodd brawf sgrinio), pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24

| | 2021-22 | | | 2022-23 | | | 2023-24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'u sgrinio | Canserau | Cyfradd | Wedi'u sgrinio | Canserau | Cyfradd | Wedi'u sgrinio | Canserau | Cyfradd |
| Cyfanswm | 108,179 | 1121 | 10.4 | 122,189 | 1182 | 9.7 | 133,338 | 1303 | 9.8 |
| Sgrinio Cyffredin | 19,641 | 184 | 9.4 | 21,303 | 181 | 8.5 | 25,662 | 219 | 8.5 |
| Sgrinio Achos | 76,460 | 754 | 9.9 | 87,535 | 790 | 9.0 | 97,857 | 901 | 9.2 |
| | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf i gael prawf sgrinio rheolaidd | 16,042 | 137 | 8.5 | 16,184 | 133 | 8.2 | 19,833 | 151 | 7.6 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai nad ydynt wedi bod o'r blaen i gael prawf sgrinio | 3599 | 47 | 13.1 | 5119 | 48 | 9.4 | 5829 | 68 | 11.7 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf o fewn 5 mlynedd | 72,341 | 681 | 9.4 | 82,875 | 712 | 8.6 | 91,957 | 816 | 8.9 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf dros 5 mlynedd ynghynt | 4119 | 73 | 17.7 | 4660 | 78 | 16.7 | 5900 | 85 | 14.4 |
| Ailalw'n gynnar | 34 | 1 | 29.4 | 52 | 4 | 76.9 | 38 | 1 | 26.3 |
| Hunanatgyfeiriad/Atgyfeiriad gan y meddyg teulu | 12,056 | 182 | 15.1 | 13,300 | 207 | 15.6 | 9782 | 182 | 18.6 |




Ffigur 8: Cyfradd canfod canser fesul 1,000 a gafodd brawf sgrinio, yn ôl y math o wahoddiad, fesul uned sgrinio, 2021-22 i 2023-24




Ffigur 11: Y gyfradd canfod canser fesul 1,000 a gafodd brawf sgrinio, 2014-15 i 2023-24 yn ôl grŵp oedran

# Math o ganser a'i faint

## Diffiniad a safon

Disgrifir canserau'r fron a nodir mewn dau grŵp. Canser ymledol yw un sydd wedi lledaenu i feinwe iach y fron ac o'i chwmpas. Mae canser anymledol neu ficro-ymledol yn gyfyngedig i ddwythellau a llabedynnau'r fron neu efallai ei fod wedi dechrau lledaenu ond dim ond ychydig bach iawn (llai nag 1mm).

Safon: Nid oes safon yn bodoli.

## Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Yn 2023-24, roedd 83.0% o'r canserau a ganfuwyd yn rhai ymledol ymhlith menywod a gafodd brawf sgrinio (Tabl 4). Roedd y canserau ymledol sydd fel arfer yn rhy fach i'w teimlo (llai na 15mm) yn cyfrif am 40.0% o'r holl ganserau ymledol (Tabl 5).

Roedd clefydau anymledol neu ficro-ymledol yn cyfrif am 17.0% o'r holl ganserau a ganfuwyd yn 2023-24 (Tabl 6).

## Y duedd tair blynedd

83.0% ymledol (40.0% ohonynt yn llai na 15mm) a 17.0% yn anymledol yn 2023-24, 83.0% ymledol (41.3% ohonynt yn llai na 15mm) a 17.0% yn anymledol yn 2022-23, 81.7% ymledol (42.7% ohonynt yn llai na 15mm o faint) a 18.3% yn anymledol yn 2021-22.

## Sylwadau

Mae cyfran y canserau mwy (15mm+) a gafodd eu diagnosio wedi cynyddu ychydig dros y cyfnod o dair blynedd. Er i gyfran uwch o ganserau 15mm+ gael eu canfod yn y cylch cyffredin o 2021/22 i 22/23, mae hyn bellach wedi lleihau yn 2023/24.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Ffigurau a thablau

### Tabl 4: Canserau ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24

| | 2021-22 | | | 2022-23 | | | 2023-24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Canserau | Ymledol | % | Canserau | Ymledol | % | Canserau | Ymledol | % |
| Cyfanswm | 1121 | 916 | 81.7 | 1182 | 981 | 83.0 | 1303 | 1081 | 83.0 |
| Sgrinio Cyffredin | 184 | 150 | 81.5 | 181 | 145 | 80.1 | 219 | 169 | 77.2 |
| Sgrinio Achos | 754 | 605 | 80.2 | 790 | 651 | 82.4 | 901 | 758 | 84.1 |
| | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf i gael prawf sgrinio rheolaidd | 137 | 107 | 78.1 | 133 | 105 | 78.9 | 151 | 112 | 74.2 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai nad ydynt wedi bod o'r blaen i gael prawf sgrinio | 47 | 43 | 91.5 | 48 | 40 | 83.3 | 68 | 57 | 83.8 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf o fewn 5 mlynedd | 681 | 544 | 79.9 | 712 | 591 | 83.0 | 816 | 686 | 84.1 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf dros 5 mlynedd ynghynt | 73 | 61 | 83.6 | 78 | 60 | 76.9 | 85 | 72 | 84.7 |
| Ailalw'n gynnar | 1 | 1 | 100 | 4 | 3 | 75.0 | 1 | 1 | 100.0 |
| Hunanatgyfeiriad/Atgyfeiriad gan y meddyg teulu | 182 | 160 | 87.9 | 207 | 182 | 87.9 | 182 | 153 | 84.1 |

## Tabl 5: Maint y canserau ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24

| | 2021-2022 | | | | | 2022-23 | | | | | 2023-24 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y rhai a gafodd eu gwahodd | <15 mm | % | 15+ mm | % | Cyfanswm y rhai a gafodd eu gwahodd | <15 mm | % | 15+ mm | % | Cyfanswm y rhai a gafodd eu gwahodd | <15 mm | % | 15+ mm | % |
| Cyfanswm | 916 | 391 | 42.7 | 462 | 50.4 | 981 | 405 | 41.3 | 504 | 51.4 | 1081 | 432 | 40.0 | 566 | 52.4 |
| Sgrinio Cyffredin | 150 | 61 | 40.7 | 75 | 50.0 | 145 | 40 | 27.6 | 92 | 63.4 | 169 | 64 | 37.9 | 91 | 53.8 |
| Sgrinio Achos | 605 | 271 | 44.8 | 301 | 49.8 | 651 | 292 | 44.9 | 319 | 49.0 | 758 | 318 | 42.0 | 390 | 51.5 |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf i gael prawf sgrinio rheolaidd | 107 | 44 | 41.1 | 53 | 49.5 | 105 | 27 | 25.7 | 70 | 66.7 | 112 | 39 | 34.8 | 66 | 58.9 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai nad ydynt wedi bod o'r blaen i gael prawf sgrinio | 43 | 17 | 39.5 | 22 | 51.2 | 40 | 13 | 32.5 | 22 | 55.0 | 57 | 25 | 43.9 | 25 | 44.6 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf o fewn 5 mlynedd | 544 | 250 | 46.0 | 266 | 48.9 | 591 | 269 | 45.5 | 289 | 48.9 | 686 | 293 | 42.7 | 347 | 50.6 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf dros 5 mlynedd ynghynt | 61 | 21 | 34.4 | 35 | 57.4 | 60 | 23 | 38.3 | 30 | 50.0 | 72 | 25 | 34.7 | 43 | 59.7 |
| Ailalw'n gynnar | 1 | 1 | 100 | 0 | 0 | 3 | 1 | 33.3 | 2 | 66.7 | 1 | 0 | 0.0 | 1 | 100.0 |
| Hunanatgyfeiriad / Atgyfeiriad gan y meddyg teulu | 160 | 58 | 36.3 | 86 | 53.8 | 182 | 72 | 39.6 | 91 | 50.0 | 153 | 50 | 32.7 | 84 | 54.9 |

Nodyn: bob blwyddyn mae nifer o ganserau ymledol na ellir eu mesur

Tabl 6: Canserau anymledol/micro-ymledol a ganfuwyd, pob oedran, yn ôl y math o wahoddiad/atgyfeiriad, 2021-22 i 2023-24

| | 2021-22 | | | 2022-23 | | | 2023-24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Canserau | Anymledol neu ficro-ymledol | % | Canserau | Anymledol neu ficro-ymledol | % | Canserau | Anymledol neu ficro-ymledol | % |
| Cyfanswm | 1121 | 205 | 18.3 | 1182 | 201 | 17.0 | 1303 | 222 | 17.0 |
| Sgrinio Cyffredin | 184 | 34 | 18.5 | 181 | 36 | 19.9 | 219 | 50 | 22.8 |
| Sgrinio Achos | 754 | 149 | 19.8 | 790 | 139 | 17.6 | 901 | 143 | 15.9 |
| | | | | | | | | | |
| Gwahoddiad cyntaf i gael prawf sgrinio rheolaidd | 137 | 30 | 21.9 | 133 | 28 | 21.1 | 151 | 39 | 25.8 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai nad ydynt wedi bod o'r blaen i gael prawf sgrinio | 47 | 4 | 8.5 | 48 | 8 | 16.7 | 68 | 11 | 16.2 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf o fewn 5 mlynedd | 681 | 137 | 20.1 | 712 | 121 | 17.0 | 816 | 130 | 15.9 |
| Gwahoddiad rheolaidd i'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, prawf sgrinio diwethaf dros 5 mlynedd ynghynt | 73 | 12 | 16.4 | 78 | 18 | 23.1 | 85 | 13 | 15.3 |
| Ailalw'n gynnar | 1 | 0 | 0 | 4 | 1 | 25.0 | 1 | 0 | 0.0 |
| Hunanatgyfeiriad/Atgyfeiriad gan y meddyg teulu | 182 | 22 | 12.1 | 207 | 25 | 12.1 | 182 | 29 | 15.9 |

# Diffiniadau

## Cwmpas

Canran y menywod sy'n byw yn yr ardal ac sy'n gymwys i gael prawf sgrinio'r fron ar adeg benodol, sydd wedi cael prawf sgrinio o fewn y tair blynedd flaenorol.

## Ailalw'n gynnar

Ail wahoddiad i ddod i glinig asesu ar ôl llai na'r cyfnod sgrinio rheolaidd (3 blynedd).

## Bwrdd Iechyd

Bwrdd iechyd preswyl.

## Y rhai sydd wedi esgeuluso dod i gael prawf sgrinio

Aeth mwy na thair blynedd heibio ers y prawf sgrinio diwethaf ac ers yr ail wahoddiad.

## Sgrinio cyffredin

Sgrinio menywod nad ydynt erioed wedi cael prawf sgrinio yn rhan o raglen sgrinio'r fron y GIG.

## Sgrinio achos

Sgrinio menywod a gafodd brawf sgrinio cyn hynny yn rhan o raglen sgrinio'r fron y GIG.

## Canser ymledol

Pan fydd celloedd canser wedi tyfu trwy leinin dwythellau a llabedynnau'r fron i'r meinwe o'u cwmpas, ac felly â'r potensial i ledaenu i rannau eraill o'r corff.

## Nifer sy’n cael ei sgrinio

Canran y menywod sy'n cael eu gwahodd yn rheolaidd i gael prawf sgrinio’r fron sy'n manteisio ar y gwahoddiad ac sy’n cael eu sgrinio ymhen chwe mis.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Y Tîm Cynhyrchu

Cyflogir holl dîm cynhyrchu'r adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fe'u rhestrir isod.

| | |
|---|---|
| Dean Phillips | Pennaeth Bron Brawf Cymru |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio |
| Guy Stevens | Rheolwr Gwybodeg Arweiniol a Gwasanaethau Data Dros Dro |
| Claire Ellis | Uwch Ddadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Phil Bothwell | Dadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Diane Rawlings | Cynorthwyydd Personol |
| Dr Emma Richards | Ymchwilydd Iechyd y Cyhoedd |

Gwasanaethau Cyfieithu

Wedi'i gyfieithu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Manylion cyswllt y rhaglen

**De-ddwyrain Cymru:**

Canolfan Sgrinio'r Fron

18 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ

sgrinio-bron-de@wales.nhs.uk

029 2039 7222

**Gorllewin Cymru**

Canolfan Sgrinio'r Fron

24 Heol Alexandra, Abertawe, SA1 5DY

sgrinio-bron-gorllewin@wales.nhs.uk

01792 459988

**Gogledd Cymru**

Canolfan Sgrinio'r Fron

Ffordd Maesdu, Llandudno, LL30 1QY

sgrinio-bron-gogledd@wales.nhs.uk

01492 860888

**Gogledd-ddwyrain Cymru**

Canolfan Sgrinio'r Fron

Ffordd Ellice, Parc Technoleg Wrecsam, Wrecsam, LL13 7YT

sgrinio-bron-gogledd@wales.nhs.uk

01492 860888

GIG CYMRU
NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales